

PRIFFYRDD, CYMRU

2009 Rhif 3

DEDDF PRIFFYRDD 1980

**GORCHYMYN CEFNFFORDD
ABERTAWA I FANCEINION (YR A483)
(FFYRDD YMYL GWELLIANT
LLANDYSILIO) 2009**

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adrannau 12, 14, 125 a 268 o Ddeddf Priffyrdd 1980⁽¹⁾ ('Deddf 1980') a phob pŵer galluogi arall⁽²⁾, yn gwneud y Gorchymyn canlynol:-

1. Awdurdodir Gweinidogion Cymru, o ran y gefnffordd yn Llandysilio yng Nghymuned Llandysilio yn Sir Powys, i wneud y canlynol:-

- a. gwneud y gwaith o wella priffyrdd;
- b. cau priffyrdd neu rannau o briffyrdd;
- c. adeiladu priffyrdd newydd;
- ch. cau mynedfeydd preifat i fangreoedd, a
- d. darparu mynedfeydd newydd i fangreoedd.

2. (1) Nodir y gwaith (y bydd y cyfan ohono yn Llandysilio yn Sir Powys) a awdurdodir gan erthygl 1 ar y map sy'n mynd gyda'r Gorchymyn hwn ac fe'i dangosir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn, fel a ganlyn:-

- a. enwir priffyrdd sydd i'w gwella a'u dangos â llinellau rhesog;
- b. disgrifir y rhannau o briffordd sydd i'w cau (bras amcan yn unig yw pob pellter) a'u dangos â llinellau sebra;
- c. dangosir y priffyrdd newydd sydd i'w hadeiladu drwy ddefnyddio yn yr Atodlen lythrennau cyfeirnod a roddir i'r priffyrdd newydd hynny ar y map, gan ddangos y llwybrau y

cânt eu hadeiladu ar eu hyd ac os caiff priffordd newydd ei hadeiladu mewn cysylltiad â chau rhan o briffordd a ddisgrifir yn yr Atodlen, gosodir ei llythyren gyfeirnod gyferbyn â'r disgrifiad o'r rhan honno. Dangosir llwybrau'r priffyrdd newydd sydd i'w hadeiladu â dotwaith, rhoddir llythyren gyfeirnod i bob priffordd newydd, a dangosir llinell ganol pob priffordd newydd â llinell ddu ddi-dor;

- ch. disgrifir rhannau o fynedfeydd preifat sydd i'w cau (bras amcan yn unig yw pob pellter), a rhoddir iddynt y rhifau cyfeirnod a ddangosir ar y map a'u dangos â bandiau du solet, a
- d. nodir mynedfeydd newydd sydd i'w darparu drwy ddefnyddio yn yr Atodlen rifau cyfeirnod a roddir i'r mynedfeydd newydd hynny ar y map, ac os yw mynedfa newydd i'w darparu mewn cysylltiad â chau rhan o fynedfa breifat a ddisgrifir yn yr Atodlen honno, gosodir ei rhif cyfeirnod gyferbyn â'r disgrifiad o'r rhan honno. Dangosir llwybrau'r mynedfeydd newydd sydd i'w darparu â llinellau lletraws.

(2) Datgenir drwy hyn fod Gweinidogion Cymru wedi'u bodloni:-

- a. mewn cysylltiad â phob rhan o briffordd y mae'r Gorchymyn hwn yn awdurdodi ei chau, bod naill ai llwybr arall sy'n rhesymol gyfleus ar gael neu y bydd yn cael ei ddarparu cyn i'r rhan honno o briffordd gael ei chau, a
- b. mewn cysylltiad â phob mynedfa breifat i fangre y mae'r Gorchymyn hwn yn awdurdodi

ei chau, bod mynedfa resymol gyfleus arall i'r fangre berthnasol ar gael neu y bydd yn cael ei darparu cyn cau'r fynedfa breifat honno neu nad oes angen rhesymol am unrhyw fynedfa i'r fangre berthnasol.

3. Mae pob priffordd newydd i'w throsglwyddo i Gyngor Sir Powys fel a nodir yn yr Atodlen a enwyd, o'r dyddiad y bydd Gweinidogion Cymru yn hysbysu'r Cyngor bod y briffordd wedi'i chwblhau a'i bod ar agor i draffig trwodd.

4. Yn union ar ôl trosglwyddo priffordd newydd y dangosir dosbarthiad iddi yn yr Atodlen gyferbyn â llythyren gyfeirnod y briffordd newydd, caiff y briffordd newydd honno ei dosbarthu yn unol â hynny.

5. Pan fo darpariaeth yn cael ei gwneud yn y Gorchymyn hwn:-

- a. i drosglwyddo priffordd newydd i Gyngor Sir Powys
neu
- b. i alluogi Cynulliad Cenedlaethol Cymru i newid priffordd a freiniwyd yng Nghyngor Sir Powys

yna rhaid trosglwyddo i Gyngor Sir Powys (yn ddarostyngedig i adran 268(3) o Ddeddf 1980) ar y dyddiad y trosglwyddir y briffordd a enwyd neu adeg cwblhau'r gwaith newid, neu ar ddyddiad caffael y tir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru mewn cysylltiad â'r briffordd newydd neu â newid priffordd, os bydd hynny'n ddiweddarach, unrhyw eiddo, hawliau neu rywmedigaethau (heblaw benthyciadau neu ffioedd am fenthyciadau) a freiniwyd yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru neu a dynnwyd ganddo mewn cysylltiad â'r briffordd newydd neu â newid priffordd, yn ôl fel y digwydd.

6. Os, yn union cyn cau rhan o briffordd yn unol â'r Gorchymyn hwn, bydd unrhyw offer ymgymerwyr statudol o dan y briffordd honno, ynddi, drosti, ar ei thraws, neu ar ei hyd, yna, yn

ddarostyngedig i adran 21 o Ddeddf Priffyrdd 1980, bydd gan yr ymgwymerwyr hynny yr un hawliau o hyd, o ran yr offer hwnnw, ar ôl i'r rhan o briffordd gael ei chau, ag yr oedd ganddynt yn union cyn hynny.

7. Yn y Gorchymyn hwn:-

mesurir pob pellter ar hyd llwybr y briffordd berthnasol neu'r fynedfa berthnasol i fangre, yn ôl fel y digwydd;

ystyr 'ffordd ddosbarthiadol' (*'classified road'*) fel dosbarth ar gyfer priffordd yw nad yw'r briffordd yn brif ffordd at ddibenion deddfiadau neu offerynnau sy'n cyfeirio at briffyrdd a ddsberthir yn brif ffyrdd, ond ei bod yn ffordd ddsbarthiadol at ddibenion pob deddfiad ac offeryn sy'n cyfeirio at briffyrdd a ddsberthir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, ac nad yw'n cyfeirio'n benodol at eu dosbarthu yn brif ffyrdd;

ystyr 'y gefnffordd' (*'the trunk road'*) yw Cefnffordd Abertawe i Fanceinion (yr A483);

mae 'gwelliant' a 'gwella' (*'improvement'*) mewn perthynas â phriffordd yn cynnwys codi, gostwng neu newid y briffordd honno mewn modd arall, a rhaid dehongli 'i'w gwella' yn unol â hynny;

ystyr 'y map a adneuwyd' (*'the deposited map'*) yw'r map a gynhwyswyd yn y ffolio mapiau sy'n dwyn y rhif HA14/1 NAFW35 ac sydd wedi'i farcio 'Gorchymyn Cefnffordd Abertawe i Fanceinion (yr A483) (Ffyrdd Ymyl Gwelliant Llandysilio) 2009', sydd wedi'i lofnodi ar ran Gweinidogion Cymru ac wedi'i adneuo yn Llywodraeth Cynulliad Cymru, Uned Storio ac Adfer Cofnodion (RSRU), Neptune Point, Ocean Way, Caerdydd, a

ystyr 'priffordd newydd' (*'new highway'*) yw priffordd yr awdurdod ei hadeiladu gan y Gorchymyn hwn a dehonglir "priffyrdd newydd" yn unol â hynny.

8. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 9 Ionawr 2009 a'i enw yw 'Gorchymyn

Cefnffordd Abertawe i Fanceinion (yr A483)
(Ffyrdd Ymyl Gwelliant Llandysilio) 2009’.

Llofnodwyd ar ran Gweinidogion Cymru.

Dyddiad 2009

S C SHOULER

Cyfarwyddwr yr Is-adran Cynllunio a
Llywodraethu Trafnidiaeth
Llywodraeth Cynulliad Cymru

- (1) 1980 p.66
- (2) Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1 a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn wedi'u rhoi bellach i Weinidogion Cymru o ran Cymru.

DEDDF PRIFFYRDD 1980

**GORCHYMYN CEFNFFORDD
ABERTAW E I FANCEINION (YR A483)
(GWELLIANT LLANDYSILIO) 2009**

**GORCHYMYN CEFNFFORDD
ABERTAW E I FANCEINION (YR A483)
(FFYRDD YMYL GWELLIANT
LLANDYSILIO) 2009**

HYSBYSIR DRWY HYN fod Gweinidogion
Cymru wedi gwneud y Gorchmynion canlynol:-

1. Gorchymyn o dan adran 10 o Ddeddf Priffyrdd 1980 yn darparu:-

a. y bydd ffordd 1 cilometr o hyd, sydd i'w hadeiladu yn Llandysilio yn Sir Powys gan ddechrau wrth bwynt tua 181 o fetrau i'r de o ganol cyffordd yr A483/y B4393 ac yn ymestyn tua'r gogledd yn gyffredinol gan orffen wrth bwynt tua 32 o fetrau i'r gogledd o ganol y fynedfa i'r eiddo o'r enw 'The Crest' yn dod yn gefnffordd o'r dyddiad y daw'r Gorchymyn i rym; a

b. y bydd y darn o Gefnffordd Abertawe i Fanceinion (yr A483) sydd i'w ddisodli gan y gefnffordd newydd ar y llwybr uchod yn peidio â bod yn gefnffordd ac yn dod yn ffordd ddi-ddosbarth fel y nodir yn y Gorchymyn o'r dyddiad y bydd y Llywodraeth Cynulliad Cymru yn hysbysu Cyngor Sir Powys (a ddaw'n awdurdod priffyrdd sy'n gyfrifol am y darn hwnnw) fod y gefnffordd newydd o dan sylw wedi ei chwblhau a'i bod ar agor i draffig trwodd.

2. Gorchymyn o dan adrannau 12, 14, 125 a 268 o Ddeddf Priffyrdd 1980 a fydd yn awdurdodi Gweinidogion Cymru:-

- a. i. i gyflawni'r gwaith o wella priffyrdd;
- ii. i gau priffyrdd;
- iii. i adeiladu priffyrdd newydd;
- iv. i gau mynedfeydd preifat i fangreoedd; a
- v. i ddarparu mynedfeydd newydd i fangreoedd

oll ar lwybr y gefnffordd newydd uchod neu yn ei chyffiniau, a

b. i ddarparu ar gyfer trosglwyddo'r priffyrdd newydd o dan sylw i Gyngor Sir Powys o'r dyddiad yr hysbysir y Cyngor fod y briffordd newydd wedi ei chwblhau a'i bod ar agor i draffig trwodd.

Gellir gweld copïau o'r Gorchymynion a'r mapiau sy'n mynd gyda hwy ar bob adeg resymol rhwng 9 Ionawr 2009 a 20 Chwefror 2009 neu o fewn 6 wythnos ar ôl dyddiad cyhoeddi'r hysbysiad hwn, pa gyfnod bynnag a ddaw i ben ddiweddaraf, yn swyddfeydd Cyngor Sir Powys, Asiantaeth Cefnffyrdd Canolbarth Cymru, Autopalace, Fiveways, Llandrindod, Powys LD1 5HU; Llyfrgell y Trallwng, Brook Street, Y Trallwng, Powys SY21 7PH; Swyddfa'r Post, Siop y Spar,

Llandysilio, Powys; a Llywodraeth Cynulliad Cymru, Trafnidiaeth ac Adfywio Strategol, Is-adran Cynllunio a Llywodraethu Trafnidiaeth 3, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

Gellir prynu copïau o'r Gorchymyn sy'n dwyn yr enw 'Gorchymyn Cefnffordd Abertawe i Fanceinion (yr A483) (Gwelliant Llandysilio) 2009' O.S. 2009 Rhif. 1 (Cy. 1) gan werthwyr llyfrau neu'n uniongyrchol o'r TSO Ltd (Y Llyfrfa Cyf).

Gellir cael copïau o'r Gorchymyn sy'n dwyn yr enw 'Gorchymyn Cefnffordd Abertawe i Fanceinion (yr A483) (Ffyrdd Ymyl Gwelliant Llandysilio) 2009' oddi wrth: Llywodraeth Cynulliad Cymru, Trafnidiaeth ac Adfywio Strategol, Is-adran Cynllunio a Llywodraethu Trafnidiaeth 3, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

Caiff unrhyw berson y mae gwneud y naill neu'r llall o'r Gorchymynion hyn yn ei dramgwyddo, ac sy'n dymuno cwestiynu dilysrwydd y Gorchymynion neu ddilysrwydd unrhyw ddarpariaeth sydd ynddynt ar y sail nad yw o fewn pwerau Deddf Priffyrdd 1980 neu ar y sail na chydymffurfiwyd, mewn perthynas â'r Gorchymynion, ag unrhyw un o ofynion y Ddeddf honno neu o ofynion Rheoliadau a wneir oddi tani, wneud cais i'r Uchel Lys o fewn 6 wythnos ar ôl 9 Ionawr 2009, neu o fewn 6 wythnos ar ôl dyddiad cyhoeddi'r Hysbysiad hwn os bydd y cyfryw gyfnod yn dod i ben yn ddiweddarach, am atal neu ddiddymu'r Gorchymynion neu unrhyw ddarpariaeth a geir ynddynt.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn Llinell a'r Hysbysiad yn <http://wales.gov.uk/legislation/?lang=cy> (detholer 'Deddfwriaeth', 'Is-deddfwriaeth', 'Offerynnau Statudol Lleol', Gorchymynion Llinell y Ddeddf Priffyrdd').

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn Ffyrdd Ymyl a'r Hysbysiad yn <http://wales.gov.uk/legislation/?lang=cy> (detholer 'Deddfwriaeth', 'Is-deddfwriaeth', 'Offerynnau Anstatudol', 'Trafnidiaeth,

Cymru', 'Ymylon Ffyrdd a Gorchmynion Prynu
Gorfodol yn unol â'r Ddeddf Priffyrdd').

**Gellir cael copi print bras o'r
Hysbysiad hwn oddi wrth:
Llywodraeth Cynulliad Cymru,
Trafnidiaeth ac Adfywio
Strategol, Is-adran Cynllunio a
Llywodraethu Trafnidiaeth 3,
Parc Cathays, Caerdydd CF10
3NQ.**

M D BURNELL

Yr Is-adran Cynllunio a Llywodraethu
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cynulliad Cymru